# AMCANGYFRIFON AELWYDYDD ABERTAWE, 2023

## Cyflwyniad

Ar 11 Rhagfyr 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amcangyfrifon aelwydydd newydd ar gyfer Cymru a'i 22 ardal awdurdod lleol o ganol 2012 i ganol 2023. Dyma'r cyhoeddiad cyntaf o amcangyfrifon aelwydydd blynyddol ers Cyfrifiad 2021.

At y dibenion hyn, diffinnir aelwyd fel *un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn cadw tŷ gyda'i gilydd – hynny yw, naill ai'n rhannu ystafell fyw neu lolfa neu o leiaf un pryd o fwyd y dydd.* Mae'r amcangyfrifon aelwydydd yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol i ddarparu niferoedd aelwydydd blaenorol yn ôl math. Daw'r rhain o amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn (yn ôl oedran a rhyw) a gwybodaeth hanesyddol am gyfansoddiad a nodweddion aelwydydd o'r Cyfrifiad. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi gwybodaeth gyflawn am ansawdd a methodoleg yr amcangyfrifon yn 2025.

Defnyddir amcangyfrifon aelwydydd gan y rheini y mae angen iddynt ystyried tueddiadau'r gorffennol a'r presennol yn y galw am lety er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaeth tai'r dyfodol ac er mwyn cyflwyno gwasanaethau megis yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill, asiantaethau tai a sefydliadau eraill yng Nghymru. Maent hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygu polisi, fel rhan o'r setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol, ar gyfer proffilio a meincnodi ac er mwyn cyfrifo rhagor o ystadegau (e.e. fel enwaduron ar gyfer cyfraddau, er mwyn pwysoli arolygon).

Mae'r nodyn briffio hwn yn darparu trosolwg o'r ffigurau cyhoeddedig diweddaraf, mae'n nodi'r tueddiadau diweddaraf ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau arwyddocaol ar gyfer Abertawe, gan gynnwys dadansoddiad o niferoedd aelwydydd yn ôl math. Cyhoeddir y rhain ar ffurf tabl yn Atodiad 1.

## Newidiadau yng Nghymru

Amcangyfrifir mai nifer yr aelwydydd yng Nghymru ar gyfer canol blwyddyn 2023 yw 1,377,100 - cynnydd o 14,500 (+1.1%) o ffigur 2022 ac 45,400 (+3.4%) yn uwch na phum mlynedd yn flaenorol (2018). Mae nifer yr aelwydydd yn 21 o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bu cynnydd ym mhob un o'r 22 ardal dros y cyfnod o bum mlynedd. Rhwng 2018 a 2023, cafwyd y gyfradd dwf uchaf yng Nghaerdydd, sydd wedi cynyddu 8% (+11,600 o aelwydydd), a'r gyfradd uchaf ond un ym Mro Morgannwg (+5.0%). Cafwyd y cyfraddau twf isaf yn ystod y cyfnod hwn ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent a Chonwy (<1.0%). Dangosir y tueddiadau diweddar (2022-23) a thymor hwy (2018-23) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yn Atodiad 2. Fe'u restrir yn ôl cyfanswm yr aelwydydd (canol 2023).

## Tueddiadau yn Abertawe

Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer yr aelwydydd (â phreswylwyr) yn Abertawe yng nghanol 2023 yn **109,000** (wedi'i dalgrynnu), cynnydd o oddeutu 1,900 (neu 1.8%) ar ffigur 2022. Yn Abertawe, cafwyd y twf uchaf ond un o ran aelwydydd yng Nghymru, a'r gyfradd dwf uchaf ond un hefyd. Ar yr un pryd, cynyddodd poblogaeth aelwydydd preifat amcangyfrifedig Abertawe 4,700 (+2.0%) yn ystod y flwyddyn.

Dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2018 a 2023, mae nifer amcangyfrifedig yr aelwydydd yn Abertawe wedi cynyddu oddeutu 4,000 (+3.8%). Er mai dyma'r lefel uchaf ond un o dwf rhifyddol yng Nghymru (y tu ôl i dwf Caerdydd, sef +11,600), twf Abertawe fel canran oedd y chweched uchaf o'r 22 ardal awdurdod lleol.

## Maint cyfartalog aelwyd

Mae maint cyfartalog aelwyd yn darparu 'prif' fesur syml o gyfansoddiad aelwyd a chyfrifir hyn drwy rannu amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat â nifer yr aelwydydd. Dros y cyfnod o bum mlynedd, sef 2018-2023, mae nifer yr aelwydydd yn Abertawe wedi cynyddu ychydig yn gyflymach na phoblogaeth aelwydydd preifat (yn unol â'r rhan fwyaf o rannau yng Nghymru). O ganlyniad, mae maint cyfartalog aelwydydd yn Abertawe wedi lleihau o 2.23 yn 2018 i 2.22 unigolyn fesul aelwyd yn 2023 (ychydig yn is na chyfartaledd Cymru, sef 2.26).

## Mathau o aelwydydd yn Abertawe

Mae'r amcangyfrifon ar gael yn ôl math o aelwyd – niferoedd oedolion a phlant. Yn 2023, roedd aelwydydd un a dau berson yn cyfrif am bron dwy ran o dair o bob aelwyd yn Abertawe, a'r mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd oedd aelwydydd person sengl (tua 38,100 neu 34.9% o'r cyfanswm), ac aelwydydd 2 berson, heb blant (32,200 neu 29.5%). Mae cyfran yr aelwydydd person sengl yn Abertawe'n uwch na chyfartaledd Cymru (32.3%) ond mae cyfran yr aelwydydd dau oedolyn (yn unig) ychydig yn is (Cymru: 31.5%).

## Newid yn ôl math o aelwyd

Rhwng 2018 a 2023, roedd y tueddiadau allweddol yn Abertawe yn ôl math o aelwyd fel a ganlyn:

- Y categori o aelwyd â'r cynnydd mwyaf, yn ôl niferoedd, yw aelwydydd person sengl - cynnydd o oddeutu 2,000 (+5.4%) dros y cyfnod.
- Ymysg y mathau a gyhoeddwyd, cafwyd y cynnydd mwyaf o ran canran (+9.3%) mewn aelwydydd â thri pherson (un oedolyn, dau blentyn).
- Cynyddodd cyfanswm yr aelwydydd ag un rhiant (un oedolyn ac un plentyn neu fwy) 5.6%, o 7,500 yn 2018 i 7,900 yn 2023.
- Cynyddodd nifer yr aelwydydd 2 oedolyn, ac aelwydydd heb blant 1,000 (+3.1%) o 31,200 yn 2018 i 32,200 yn 2023. Yn gyffredinol, mae cyfran yr aelwydydd o'r math hwn wedi aros yn weddol sefydlog yn ystod y cyfnod: oddeutu tair o bob 10 aelwyd yn Abertawe.
- Mae cyfanswm yr aelwydydd â dau oedolyn ac un plentyn (neu fwy) wedi cynyddu oddeutu 300 (+1.6%) yn ystod y cyfnod i 19,900 o aelwydydd.
- Yn ôl yr amcangyfrifon, mae tueddiadau nifer yr aelwydydd heb blant â phedwar oedolyn neu fwy wedi cynyddu 2.2% (+100 i 3,900) rhwng 2018 a 2023. Mae amcangyfrifon blaenorol wedi dangos cynnydd cyflymach yn Abertawe yn y mathau hyn o aelwydydd (gan gynnwys aelwydydd myfyrwyr ac aelwydydd a rennir).

*Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill mewn perthynas ag amcangyfrifon aelwydydd neu newidiadau demograffig yn Abertawe, cysylltwch â'r canlynol:*

**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil a SGD**
E-bost: ymchwil@abertawe.gov.uk
Uned Cyflwyno Strategol, Gwasanaethau Corfforaethol, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.

## Atodiad 1:
## AMCANGYFRIFON AELWYDYDD A NEWID YN ABERTAWE YN ÔL Y MATH O AELWYD

Niferoedd yr aelwydydd a phoblogaeth mewn miloedd.  % y newid yn seiliedig ar niferoedd go iawn.

| Blwyddyn | Pob aelwyd | *PAP* | *MCA* | Math o aelwyd: 1P | 2P | 2P (1O, 1P) | 3P | 3P (2O, 1P) | 3P (1O, 2P) | 4P (0P) | 4P (2+O, 1+P) | 4P (1O, 3P) | 5P+ (0P) | 5P+ (2+O, 1+P) | 5P+ (1O, 4+P) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2013** | **104.1** | *234.2* | *2.25* | 35.2 | 30.9 | 4.1 | 6.8 | 6.5 | 2.2 | 2.6 | 9.1 | 0.7 | 1.3 | 4.5 | 0.2 |
| | | | (%) yr holl aelwydydd: | (33.8) | (29.7) | (4.0) | (6.5) | (6.2) | (2.1) | (2.5) | (8.7) | (0.7) | (1.3) | (4.3) | (0.2) |
| **2018** | **105.0** | *234.1* | *2.23* | 36.1 | 31.2 | 4.1 | 6.8 | 6.4 | 2.4 | 2.5 | 8.9 | 0.7 | 1.3 | 4.4 | 0.2 |
| | | | (%) yr holl aelwydydd: | (34.4) | (29.7) | (3.9) | (6.5) | (6.1) | (2.3) | (2.4) | (8.5) | (0.7) | (1.2) | (4.2) | (0.2) |
| **2021** | **105.3** | *232.7* | *2.21* | 36.8 | 31.4 | 4.1 | 6.8 | 6.2 | 2.4 | 2.4 | 8.7 | 0.8 | 1.1 | 4.3 | 0.2 |
| | | | (%) yr holl aelwydydd: | (34.9) | (29.8) | (3.9) | (6.4) | (5.9) | (2.3) | (2.3) | (8.3) | (0.7) | (1.1) | (4.1) | (0.2) |
| **2022** | **107.0** | *236.8* | *2.21* | 37.4 | 31.7 | 4.2 | 6.9 | 6.4 | 2.5 | 2.5 | 8.9 | 0.8 | 1.2 | 4.4 | 0.3 |
| | | | (%) yr holl aelwydydd: | (35.0) | (29.7) | (3.9) | (6.4) | (5.9) | (2.3) | (2.3) | (8.3) | (0.7) | (1.1) | (4.1) | (0.2) |
| **2023** | **109.0** | *241.5* | *2.22* | 38.1 | 32.2 | 4.2 | 7.1 | 6.5 | 2.6 | 2.6 | 9.0 | 0.8 | 1.3 | 4.4 | 0.3 |
| | | | **(%) yr holl aelwydydd**: | (34.9) | (29.5) | (3.9) | (6.5) | (5.9) | (2.4) | (2.4) | (8.3) | (0.7) | (1.2) | (4.1) | (0.2) |
| | **H.** | **PAP** | **MCA** | **Math: 1P** | **2P** | **2P** (1O, 1P) | **3P** | **3P** (2O, 1P) | **3P** (1O, 2P) | **4P** (0P) | **4P** (2+O, 1+P) | **4P** (1O, 3P) | **5P+** (0P) | **5P+** (2+O, 1+P) | **5P+** (1O, 4+P) |
| **Newid: 2022-23** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **rhif** | **+1.9** | *+4.7* | *-0.01* | +0.6 | +0.4 | +0.1 | +0.2 | +0.1 | +0.1 | +0.1 | +0.2 | +0.0 | +0.1 | +0.1 | +0.0 |
| **%** | **(+1.8)** | *(+2.0)* | | (+1.7) | (+1.3) | (+2.0) | (+2.3) | (+1.8) | (+3.0) | (+3.6) | (+1.8) | (+2.8) | (+6.2) | (+2.0) | (+2.6) |
| **Newid: 2018-23** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **rhif** | **+4.0** | *+7.5* | *+0.01* | +2.0 | +1.0 | +0.1 | +0.2 | +0.1 | +0.2 | +0.1 | +0.1 | +0.1 | +0.0 | +0.1 | +0.0 |
| **%** | **(+3.8)** | *(+3.2)* | | (+5.4) | (+3.1) | (+2.9) | (+3.2) | (+1.8) | (+9.3) | (+2.3) | (+1.6) | (+7.7) | (+2.1) | (+1.5) | (+7.4) |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer Cymru, canol blwyddyn 2023 ac yn gynharach, Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd 11 Rhagfyr 2024.*

***Allwedd:***

**P** = Pob aelwyd (â phreswylwyr)
**PAP** = Poblogaeth Aelwydydd Preifat
**MCA** = Maint cyfartalog aelwyd
Maint cyfartalog aelwyd

*Mathau o aelwydydd:*

**1P** = aelwyd un person
**2P** = aelwyd dau berson
**3P** = aelwyd 3 pherson
**4P** = aelwyd 4 person

**5P+** aelwyd 5 person neu fwy.

O = nifer yr oedolion
P = nifer y plant.

**Atodiad 2:**
**AMCANGYFRIFON AELWYDYDD AR GYFER ARDALOEDD AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU, 2013-2023**
(ardaloedd wedi'u rhestru yn ôl nifer yr aelwydydd, 2023)

Amcangyfrifon aelwydydd, blynyddoedd dethol. Niferoedd unedau wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf.
% y newid yn seiliedig ar niferoedd go iawn.

| ***Awdurdodau Lleol*** | **2013** | **2018** | **2021** | **2022** | **2023** | **newid 2022-2023 (%)** | **newid 2018-2023 (%)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 143,600 | 145,800 | 148,200 | 152,600 | 157,400 | +4,800 (+3.2%) | +11,600 (+8.0%) |
| **Abertawe** | **104,100** | **105,000** | **105,300** | **107,000** | **109,000** | **+1,900 (+1.8%)** | **+4,000 (+3.8%)** |
| Rhondda Cynon Taf | 100,900 | 102,700 | 103,800 | 104,800 | 105,800 | +1,100 (+1.0%) | +3,100 (+3.0%) |
| Sir Gaerfyrddin | 79,500 | 80,500 | 82,100 | 82,600 | 83,100 | +500 (+0.6%) | +2,600 (+3.2%) |
| Caerffili | 75,000 | 75,900 | 76,000 | 76,300 | 76,600 | +300 (+0.4%) | +700 (+1.0%) |
| Sir y Fflint | 62,100 | 65,100 | 66,900 | 67,500 | 68,300 | +700 (+1.1%) | +3,100 (+4.8%) |
| Casnewydd | 64,400 | 66,100 | 66,800 | 67,100 | 67,500 | +300 (+0.5%) | +1,400 (+2.1%) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 59,300 | 61,200 | 62,500 | 62,800 | 63,200 | +400 (+0.7%) | +2,000 (+3.3%) |
| Castell-nedd Port Talbot | 59,800 | 61,300 | 62,000 | 62,200 | 62,600 | +300 (+0.6%) | +1,200 (+2.0%) |
| Powys | 59,000 | 59,400 | 60,500 | 60,800 | 61,100 | +300 (+0.6%) | +1,600 (+2.8%) |
| Wrecsam | 57,300 | 58,100 | 58,000 | 58,300 | 58,700 | +400 (+0.7%) | +600 (+1.0%) |
| Bro Morgannwg | 54,200 | 55,900 | 57,700 | 58,200 | 58,700 | +500 (+0.9%) | +2,800 (+5.0%) |
| Sir Benfro | 53,700 | 54,100 | 55,600 | 56,100 | 56,500 | +400 (+0.7%) | +2,400 (+4.4%) |
| Conwy | 51,800 | 51,800 | 52,300 | 52,100 | 52,300 | +200 (+0.3%) | +500 (+0.9%) |
| Gwynedd | 52,100 | 51,300 | 51,300 | 51,700 | 52,200 | +500 (+1.0%) | +900 (+1.8%) |
| Sir Ddinbych | 40,900 | 41,500 | 42,400 | 42,700 | 42,900 | +300 (+0.7%) | +1,500 (+3.6%) |
| Sir Fynwy | 38,900 | 39,800 | 40,800 | 41,200 | 41,500 | +300 (+0.8%) | +1,800 (+4.4%) |
| Torfaen | 38,800 | 39,500 | 40,200 | 40,500 | 40,700 | +300 (+0.6%) | +1,300 (+3.2%) |
| Ceredigion | 32,100 | 30,600 | 30,800 | 31,200 | 31,700 | +500 (+1.5%) | +1,100 (+3.6%) |
| Ynys Môn | 30,800 | 30,500 | 30,900 | 31,000 | 31,200 | +200 (+0.6%) | +700 (+2.4%) |
| Blaenau Gwent | 30,500 | 30,300 | 30,300 | 30,400 | 30,600 | +200 (+0.6%) | +200 (+0.8%) |
| Merthyr Tudful | 24,600 | 25,300 | 25,400 | 25,500 | 25,500 | -0 (-0.1%) | +200 (+0.6%) |
| Cymru | 1,313,100 | 1,331,700 | 1,349,500 | 1,362,600 | 1,377,100 | +14,500 (+1.1%) | +45,400 (+3.4%) |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer Cymru, canol blwyddyn 2023 ac yn gynharach, Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd 11 Rhagfyr 2023.*